COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R PWYLLGOR Y CABINET CYDRADDOLDEB A GYNHALIWYD HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DYDD MERCHER, 17 GORFFENNAF 2024 10:00

Presennol

Y Cynghorydd N Farr – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| E L P Caparros | M J Evans | J Gebbie | JC Spanswick |
| HM Williams | | | |

Presennol – O Bell

| | | | |
|---|---|---|---|
| A R Berrow | D M Hughes | M Lewis | RL Penhale-Thomas |
| A Wathan | AJ Williams | E D Winstanley | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb
Dim

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Zoe Edwards | Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldebau |
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid |
| Paul Miles | Rheolwr Grŵp - Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol |
| Angela Granville | Rheolwr Datblygu Busnes AD |

Datganiadau o Ddiddordeb

Gwnaeth y Cynghorydd Ross Penhale-Thomas ddatganiad personol gan ei fod yn gyflogedig gan elusen tai sy'n arbenigo mewn cydraddoldeb, amrywedd a chynhwysiant

## 44. Cymeradwyaeth Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Derbyn Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cabinet Cydraddoldeb â'r dyddiad 20/03/24 fel gwir gofnod manwl gywir. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 17.07.24 |

## 45. Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb yn y Gweithlu (2023-2024)

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Cyflwynodd y Rheolwr Grŵp Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol adroddiad yn darparu Pwyllgor Cabinet Rhianta Corfforaethol gyda diweddariad ar - Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol.<br><br>Cafwyd trafodaethau ynghylch yr agweddau canlynol a grybwyllwyd yn yr adroddiad:<br><br>• Sut mae data am grwpiau lleiafrifol yn cael ei ddal ac a yw'r derminoleg gywir yn cael ei defnyddio er mwyn categoreiddio grwpiau o Bobl Dduon, Asiaidd ac o Leiafrifoedd Ethnig. Datganodd y Rheolwr Grŵp - Adnoddau Dynol y byddai'n ceisio cael eglurder ynghylch y defnydd a wneir o'r derminoleg a rhoi gwybod i'r pwyllgor. Datganodd fod gan y tîm ymrwymiad i wella'r ffordd mae data'n cael ei ddal yn ystod y flwyddyn gyfredol fel bod yr wybodaeth a gyflwynir yn 2025 yn rhoi mwy o fanylder.<br><br>• Nodwyd yr ystod oedran lle roedd disgrifiad o weithlu oedd yn heneiddio a gofynnwyd cwestiwn ynghylch beth oedd yn cael ei wneud i ddenu pobl ieuengach i'r gweithlu. Datganodd y Rheolwr Grŵp - Adnoddau Dynol fod oedran hŷn y gweithlu yn bod o ganlyniad i ymestyniad ar oedran ymddeol a bod disgwyl iddo gael ei ymestyn ymhellach yn y dyfodol. Datganodd yn ogystal, fod y gwasanaeth AD yn ystod y 12 mis nesaf yn mynd i fod yn ymgysylltu gyda phobl oedd yn ymgeisio am swyddi drwy blatfformau cyfryngau cymdeithasol oherwydd y teimlad bod cyswllt gyda'r grŵp oedran roeddent yn awyddus i'w recriwtio. |

| | |
|---|---|
| | • Crybwyllwyd positifrwydd y Cynllun Prentisiaeth roedd yr Awdurdod wedi bod yn rhedeg oddi ar 2013. Ffocws yr Adran Adnoddau Dynol oedd ar y prif feysydd lle roedd ganddynt swyddi gwag neu heriau i recriwtio prentisiaid y dyfodol. O safbwynt rhai oedd yn gadael gofal, datganodd y Rheolwr Grŵp Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol bod yr Adran wedi bod yn gweithio gyda chydweithwyr o'r gwasanaethau cymdeithasol a'u bod yn mynd i gael cyfarfod gyda rhai oedd yn Gadael Gofal er mwyn trafod cyflogaeth gyda Chyngor Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr a chyflogaeth yn gyffredinol, fel eu bod yn cael eu cefnogi i chwilio am gyfleoedd cyflogaeth gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac mewn llefydd eraill.<br><br>• Gofalwyr di-dâl, y rhesymau pam nad oeddent yn cydweithredu a'r gefnogaeth y gallent fod ei angen. Gofynnwyd cwestiwn ynghylch sut mae unigolyn yn barnu os ydynt yn ofalwr ai peidio ac a oedd unrhyw ganllawiau ar gael i unigolion allu gwneud yr asesiad hwn. Roedd cwestiwn pellach ynghylch sut roedd Pen-y-bont ar Ogwr yn cymharu gydag awdurdodau lleol eraill. Datganodd y Rheolwr Grŵp - Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol bod gan yr holl staff fynediad at 'Brotocol Gofalwr'. Crybwyllodd fod cymhariaeth wedi'i dwyn gydag awdurdodau eraill ac roedd sawl gwahaniaeth wedi'i sefydlu, a soniodd y byddai hyn yn unol â'r gwahaniaethu yng nghyfansoddiad gweithlu Pen-y-bont ar Ogwr a'r gwasanaethau allanol oedd ar gael iddynt. Yr awgrym oedd bod pwyslais yn cael ei roi ar ddal data a chasglu gwybodaeth er mwyn gallu dod o hyd i ffigyrau manwl gywir o'r niferoedd o ofalwyr di-dâl.<br><br>• Y bwlch cyflog rhwng y rhywiau a'r mesurau oedd gan yr Awdurdod mewn lle er mwyn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal oedd ar gael. Datganodd y Rheolwr Grŵp, Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol fod un o'r mesurau a fabwysiadwyd i wella'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn awyddus i weithio gyda gwasanaethau o ran gweithio'n hyblyg a chyfleoedd.<br>Creu patrymau gwaith er mwyn galluogi menywod unigol i ymgeisio am swyddi lle roeddent yn gallu gweithio'n hyblyg neu'n gallu gweithio rhan amser, gan roi'r cyfle iddynt felly i ymgeisio am swyddi a fyddai wedyn yn dod â hwy i mewn ar lefelau oedd wedi'i dyrchafu.<br><br>• Gwnaeth aelod ymholiad ynghylch y data a ddarparwyd gan roi enghreifftiau o ffigyrau oedd dan sylw. Roedd y Cadeirydd yn dymuno ychwanegu cwestiwn pellach mewn perthynas â hysbysebu cyfleoedd cyflogaeth yn benodol i grwpiau o leiafrifoedd ethnig. Ymatebodd y Rheolwr Grŵp, Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol, nad oedd y data a gasglwyd wedi'i dorri lawr yn ôl yr ardal wasanaeth ac roedd pryderon ynghylch cyflwyno'r data tra'n cynnal cyfrinachedd. Sicrhaodd y pwyllgor fod recriwtio yn cael ei wneud pryd bynnag oedd yn bosib gan hysbysebu ar amrywiol |

| | |
|---|---|
| | wefannau er mwyn dal diddordeb yr holl gymunedau. Cytunwyd, yn y flwyddyn oedd i ddod, y byddai ffigyrau yn cael eu cyflwyno mewn ffordd sy'n dangos nad ydynt yn gor-gynrychioli nac yn tangynrychioli ond eu bod yn cynnwys yr holl grwpiau.<br><br>• Y modiwlau e-ddysgu a'r gefnogaeth ar gael i weithwyr sy'n cwblhau'r modiwlau sydd wedi'u neilltuo iddynt. Gofynnwyd cwestiwn ynghylch y gefnogaeth oedd ar gael i weithwyr nad ydynt yn gallu cael mynediad at y system electronig a datganodd y Rheolwr Grŵp Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol pe bai staff ddim yn gallu cael mynediad at y modiwlau ar-lein, y byddent yn cael eu darparu gyda llyfr gwaith ar fformat papur. Byddai'r pwyslais ar y meysydd gwasanaeth i hyrwyddo a sicrhau bod y modiwlau yn cael eu cwblhau gan eu staff.<br><br>• Awgrymodd aelod, tra'n gwerthfawrogi bod y drafodaeth yn ymwneud ag amrywiaeth y gweithlu, y gallai fod o ddiddordeb i edrych yn feirniadol ar Siambr y Cyngor a bod y pwynt hwn i gael ei ychwanegu fel pwynt trafod yn y dyfodol.<br><br>• Trafodwyd lleoliad ar gyfer man tawel/ystafell weddïo ar gyfer gweithwyr ac amser i weithwyr fynychu hyfforddiant iaith Gymraeg a grwpiau ffocws i weithio ar grwpiau Lleiafrifoedd Ethnig, grwpiau Anabl a grwpiau LHBTC+.<br><br>• Cytunwyd y byddai'r drafodaeth mewn perthynas â'r Siarter Cydraddoldeb Hil a'r Siarter Anabledd yn cael ei chynnal ar wahân ac y byddai'r pwyllgor yn cael eu darparu gyda diweddariad ar ddyddiad pellach.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Dylai Pwyllgor y Cabinet Cydraddoldeb nodi'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad hwn ac o fewn Atodiadau. Cytunwyd ymhellach y dylid ailymweld â'r canlynol:<br><br>- Ceisio cael eglurder ynghylch y derminoleg gywir a ddefnyddiwyd wrth gyfeirio at aelodau o Grwpiau Lleiafrifoedd Ethnig<br>- Y wybodaeth a gasglwyd o'r data oedd i'w chyflwyno yn 2025 i fod yn fwy manwl<br>- Trafod amrywiaeth a gynrychiolwyd o fewn Siambr y Cyngor<br>- Y dylid diweddaru'r Pwyllgor ar gynnydd mewn perthynas â'r Siarter Cydraddoldeb Hil a'r Siarter Anabledd. |

| | |
|---|---|
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 17.07.2024 |

## 46. Adolygiad Safonau Cymreig Blynyddol

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Cyflwynodd y Rheolwr y Grŵp - Trawsnewid a Gwasanaethau Cwsmer adroddiad a oedd yn hysbysu Pwyllgor y Cabinet Cydraddoldeb o'r cynnwys a'r dull a ddefnyddiwyd gydag Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2023/2024 y Cyngor.<br><br>Gwnaeth un aelod gais am eglurder ynghylch y cynnydd a wnaed mewn perthynas â Safonau'r Iaith Gymraeg dros amser a gwnaeth ymholiadau ynghylch p'un a oedd rôl Aelod Cabinet oedd yn goruchwylio'r Iaith Gymraeg ar ran yr Awdurdod mewn perthynas â phenodi Hwylusydd Iaith Gymraeg o fewn aelodau'r Cyngor.<br>Ymatebodd yr Arweinydd fod gan yr Aelod Cabinet, Addysg a Gwasanaethau gyfrifoldeb dros y Gymraeg o fewn y Cynllun Strategol Addysg. Tra nad yw hyn yn cael ei grybwyll o fewn y rhestr o gyfrifoldebau yr oedd wedi'i gynnwys oddi mewn, nododd hefyd yn ei fan ef ei bod yn ddyletswydd ar bob aelod i hyrwyddo'r iaith Gymraeg.<br><br>Nododd y Prif Swyddog Cyllid, Tai a Newid fod y manylion yn yr adroddiad ond yn giplun o'r cynnydd a wnaed dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf a chytunodd y byddai'r adroddiad nesaf yn cynnwys cymhariaeth o'r blaenoriaethau ochr yn ochr â'r cynnydd a wnaed.<br><br>Cafwyd trafodaeth o amgylch y modiwl Iaith Gymraeg ar y porth E-Ddysgu a'r dulliau a ddefnyddiwyd i ddathlu'r defnydd o'r Iaith Gymraeg ar draws yr awdurdod.<br><br>Roedd yna drafodaeth hefyd ynghylch yr opsiwn iaith a ddewiswyd gan rai oedd yn cysylltu gyda'r Awdurdod Lleol drwy'r system ffonau a'r problemau technegol o amgylch argaeledd siaradwyr Cymraeg yn yr Adrannau i gyd-fynd gyda'r amser y derbyniwyd y galwadau.<br><br>Datganodd yr Rheolwr Ymgynghori ar Ymgysylltu a Chydraddoldeb nad oedd gan yr Awdurdod siaradwr Cymraeg ym mhob adran, a thra bod anogaeth i recriwtio siaradwyr Cymraeg roedd yna heriau roedd y tîm yn eu hwynebu ar hyn o bryd wrth geisio cyflawni hyn. |

| | |
|---|---|
| | PENDERFYNWYD: Nodwyd yr adroddiad gan y Pwyllgor Cabinet Cydraddoldeb a'r cynnydd a wnaed yn ystod 2023/24 wrth gwrdd â'i gyfrifoldebau iaith Gymraeg |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 17.07.2024 |

## 47. Adolygiad Blynyddol Asesiad Effaith Cydraddoldeb 2023-2024

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Cyflwynodd Rheolwr y Grŵp - Cyllid, Tai a Newid adroddiad mwyn rhoi diweddariad blynyddol i aelodau o'r Pwyllgor ar ofyniad y Cyngor i gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AECau), trosolwg o ddull y Cyngor o ymdrin ag AECau ac amlinelliad o AECau a gynhaliwyd ym meysydd gwasanaethau Cyngor Bwrdeistref Sirol Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr yn 2023/2024.<br><br>Holodd yr Aelodau gwestiynau am yr Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a wnaed gan y Prif Swyddog Cyllid, Tai a Newid a'r Rheolwr Ymgynghori Ymgysylltu a Chydraddoldeb ac roedd yn cynnwys trafodaeth ar y pwyntiau a grybwyllwyd isod:<br><br>• Cymhariaeth i gael ei chynhyrchu mewn perthynas â'r nifer o weithwyr wnaeth ymgymryd â'r hyfforddiant drwy'r amrywiol ddulliau er mwyn gwneud gwelliannau i gynyddu'r niferoedd oedd yn ymgymryd ag o. Gwnaed cais am i'r ffigyrau gael eu cyflwyno'n gynt yn hytrach nag aros am iddynt gael eu cynnwys yn yr adroddiad y flwyddyn ganlynol.<br><br>• Gwnaed cais am wybodaeth er mwyn galluogi aelodau i ddeall canlyniad yr asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb. Cytunwyd bod y problemau sy'n codi o'r asesiadau a'u heffaith yn cael eu hamlinellu'n eglur yn yr adroddiad fel bod aelodau yn ymwybodol o'r problemau a'r effaith fel bod ganddynt y darlun llawn wrth iddynt wneud unrhyw benderfyniadau yn seiliedig ar yr adroddiadau.<br><br>• Deallwyd bod gofyn i'r rheolwyr ymgymryd â hyfforddiant drwy opsiwn e-ddysgu a gweithdy. Roedd yr hyfforddiant ei hun yn cael ei reoli gan y Tîm Dysgu a Datblygu, er nad oedd unrhyw un wedi'i glustnodi i fonitro'r Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.<br><br>• Cafwyd cais i ddangos dilyniant o'r hyfforddiant yr ymgymerwyd ag ef o fewn yr adroddiad. |

| | |
|---|---|
| | PENDERFYNWYD: Nododd y Pwyllgor Cabinet Cydraddoldeb fod cynnydd wedi'i wneud yn y Cyngor yn ystod 2023/24 wrth gwblhau'r Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r cynnydd a wnaed gyda'r Hyfforddiant. Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r ystadegau ar gyfer y nifer o weithwyr oedd wedi ymgymryd â hyfforddiant yn cael eu darparu cyn gynted â phosib. Cytunwyd yn ogystal y byddai'r materion oedd yn codi o'r asesiadau yn cael eu hamlinellu yn yr adroddiad er mwyn galluogi'r broses o wneud penderfyniadau. Disgwylir i'r adroddiad gynnwys disgrifiad o'r cynnydd a wnaed gyda'r hyfforddiant. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 17.07.2024 |

## 48. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Nidoedd unrhyw eitemau brys |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 17.07.2024 |

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch :

Rhan 1

Rhan 2

Terfynwyd y cyfarfod yn 11:25